

## **Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona,**

**Cyfarfod Rhithwir ar Teams, Dydd Mercher 10 Mawrth 2021 am 12:30**

### **1. Yn bresennol**

#### **Senedd Cymru**

John Griffiths – Cadeirydd, Aelod o'r Senedd (AS) (Llafur, Dwyrain Casnewydd)

Neil McEvoy – Aelod o'r Senedd (AS) (Propel)

Ryland Doyle – Swyddog cymorth i Mike Hedges, Aelod o'r Senedd

Amanda Jenna – Swyddog cymorth i Russell George, Aelod o'r Senedd

Callum McSorly – Swyddog cymorth i Huw Irranca Davies AS

Andrew Bettridge – Uwch-swyddog Cyfathrebu, Swyddfa John Griffiths AC

#### **Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Staff**

Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru a Chadeirydd Plismona yng Nghymru

Dafydd Llywelyn – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Jeff Cuthbert – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Eleri Thomas – Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Arfon Jones – Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Cerith Thomas – Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Cyngorydd Cymru

Sian Curley – Prif Weithredwr i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent

Stephen Hughes – Prif Weithredwr i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Carys Morgans – Prif Weithredwr i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

#### **Prif Gwnstablaid**

Carl Foulkes – Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru

Pam Kelly – Prif Gwnstabl, Heddlu Gwent a Chadeirydd Grŵp Prif Swyddogion Cymru

Jeremy Vaughan – Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru

Claire Parmenter – Prif Gwnstabl Dros Dro Heddlu Dyfed-Powys

#### **Uned Gyswilt yr Heddlu**

Paul Morris – Pennaeth Uned Gyswilt yr Heddlu

Uwcharolygydd Steve Thomas – Uned Gyswilt yr Heddlu

### **2. John Griffiths AS, Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac eglurodd y byddai nifer o grynodedau ysgafnach gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiadaid ar y canlynol:

1. Heriau Plismona yng Nghymru yn ystod y Pandemig – Pam Kelly
2. Trais a Cham-drin Domestig – Jeremy Vaughan
3. Natur newidiol y cyflenwad cyffuriau – Arfon Jones
4. Troseddau a Thwyll Seiber – Dafydd Llywelyn
5. Hil a Chynhwysiant ym maes Plismona Cymru – Carl Foulkes
6. Effaith y Pandemig ar Weithlu'r Heddlu – Jeff Cuthbert
7. Rôl Feirniadol Partneriaethau Lleol – Claire Parmenter
8. Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru: Astudiaeth achos mewn cydweithrediad – Alun Michael

Yna byddai cyfle i wneud sylwadau neu ofyn cwestiynau am y crynodebau neu unrhyw fater plismona arall.

### **3. Crynodebau**

#### **3.1 Heriau Plismona yng Nghymru yn ystod y Pandemig – Pam Kelly**

Tynnodd Prif Gwnstabl Gwent, Pam Kelly, sylw at y canlynol.

Roedd plismona fel gwasanaethau cyhoeddus eraill a'r cymunedau yng Nghymru wedi wynebu heriau sylweddol wrth ymateb i'r pandemig.

Roedd y gwasanaeth heddlu yng Nghymru eisoes yn delio â gofynion eraill fel llifogydd eang yn union cyn dechrau'r cyfnod clo yn 2020 ac yna protestiadau amrywiol yn ystod y cyfnod covid.

O ganlyniad i'r cyfyngiadau, bu'n rhaid i'r gwasanaeth addasu ei arferion yn gyflym er mwyn gofalu am eu cymunedau a'u staff eu hunain.

Yn ystod y camau cychwynnol, roedd yn rhaid iddynt sicrhau darpariaeth ddigonol o PPE i'w swyddogion a'u staff; sicrhau bod ystafelloedd rheoli a'r ddalfa yn cael eu briffio'n briodol ar y rheoliadau ac yn rheoli adleoli staff oherwydd salwch neu gan fod swyddogion a staff yn hunanynysu.

Roedd lefelau troseddau wedi gostwng o 12% i 20% ledled y DU, (15% yng Ngwent). Mewn cyferbyniad, roedd lefel y galwadau wedi cynyddu a oedd yn golygu pwysau ychwanegol ar swyddogion a staff.

Roedd cyflwyno ac addasu'r rheoliadau yn gyflym yn ei golygu ei bod yn heriol o ran briffio staff ar fyr rybudd, weithiau o fewn 24 awr, fel y gallai swyddogion heddlu eu rhoi ar waith yn y gymuned. Roedd y ddeialog gadarnhaol gydag Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd yn help i sicrhau bod y broses yn rhedeg mor effeithiol â phosibl yn ymarferol.

Yn bwysig, y nod oedd sicrhau dull gweithredu cyson ar draws Cymru ac er nad oedd plismona yn wasanaeth datganoledig, roedd yn bwysig ei fod yn gweithio mewn ffordd ddatganoledig. Roeddent hefyd yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn Lloegr i sicrhau dull mwy cyson er bod y rheoliadau'n wahanol.

Bu heriau fel plismona manau o harddwch, cartrefi gwyliau neu ardaloedd trawsffiniol ac yn hynny o beth roedd arddull a naws plismona yn bwysig. Roedd egwyddor y pedair E wedi bod yn arbennig o effeithiol, sef ymgysylltu, addysgu, annog ac fel y dewis olaf gorfodi, o ran cynnal cefnogaeth gymunedol (“engage, educate, encourage, enforce”). Yn gyffredinol, ond nid bob amser, roedd

aelodau'r cyhoedd yn gweithio gyda'r heddlu. Newidiwyd y pwyslais o'r camau cynnar i fynd i'r cam gorfodi yn gyflymach gyda lleiafrif o bobl.

Roedd y Grwpiau Cydlynu Strategol (SCGs) yn grŵp partneriaeth amlasiantaeth dan gadeiryddiaeth swyddogion yr heddlu ac fe wnaethant sicrhau ymateb ar y cyd effeithiol e.e. sefydlu corffdai dros dro, codi ymwybyddiaeth o fewn cymunedau, gweithredu'r cyfyngiadau a sefydlu canolfannau brechu.

Roedd materion yn symud ymlaen i'r cyfnod adfer a'r heriau i gymunedau yn gysylltiedig â dod allan o'r cyfnod clo e.e. profedigaeth, economaidd, iechyd meddwl a bregusrwydd yn ymwneud â cham-drin domestig. Roedd paratoadau ar y gweill ar gyfer ailagor yr economi yn ystod y nos a chynnydd mewn tueddiadau troseddu. Roedd atal ac ymateb cyflym yn well na gwellhad ac roedd cyfrifoldeb yn unol â'r dull partneriaeth i gadw cymunedau'n ddiogel. Roedd llawer o waith i'w wneud o hyd ac roedd y gwasanaeth heddlu'n gwerthfawrogi'r gefnogaeth gan bartneriaid.

### 3.2 Trais a Cham-drin Domestig – Jeremy Vaughan

Tynnodd Prif Gwnstabl De Cymru, Jeremy Vaughan, sylw at y canlynol.

Er mis Mawrth 2020, bu cynnydd yn y tensiynau aelwydydd a orfodwyd gan covid a bu cyfyngiadau ar wasanaethau cymorth yn enwedig iechyd. Roedd dioddefwyr wedi bod dan glo gyda rhai oedd yn eu cam-drin ac roedd yr heddlu wedi gweithio'n galed i annog negeseuon i gymunedau a phartneriaid yn uniongyrchol i roi gwybod am drais a cham-drin domestig. Bu strategaeth gyfathrebu yn cynnwys negeseuon personol gan yr heddlu a phartneriaid ledled Cymru. Derbyniodd y llinell gymorth byw heb ofn 600 o gysylltiadau ym mis Ionawr ac roedd Cymorth i Fenywod Cymru wedi gweld cynnydd.

Arweiniodd cysylltiad pwylllog gan fferyllfeydd ac archfarchnadoedd â'r heddlu at dynnu ddioddefwr o berthynas hirdymor.

Yn ystod y flwyddyn flaenorol, gwelwyd gostyngiad o 11.3% mewn trais domestig yn cael ei rportio i Heddlu De Cymru. Efallai bod hynny'n adlewyrchiad go iawn yn rhannol oherwydd economi arafach yn enwedig yr economi yn ystod y nos. Fodd bynnag, roedd rhai yn teimlo na allant rportio tra roeddent yn y cyfnod clo ac roedd materion wedi gwella wrth i'r cyfnod clo ddechrau agor.

Roedd yr heddlu'n gweithio gyda thramgwyddwyr trwy'r cynllun Drive a gyda phartneriaid o ran lloches a thai.

Roedd gwasanaethau'r llysoedd wedi blaenoriaethu ôl-groniad o achosion trais a cham-drin domestig, sef hanner yr hyn o'i gymharu â mis Mehefin/Gorffennaf diwethaf.

Roedd nifer o droseddau eraill yn destun ymchwiliad a safodd yr heddlu yn barod i ymateb i'r economi yn agor, mwy o ryddid i symud ac achosion hanesyddol.

### 3.3 Natur newidiol y cyflenwad cyffuriau – Arfon Jones

Tynnodd Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, sylw at arolwg a oedd yn mynd rhagddo gan elusen yr ymgyrch Release. Roedd yn gofyn am farn defnyddwyr cyffuriau ynghylch sut roedd pethau wedi newid. Cafwyd 2,600 o ymatebion hyd yma ac roedd y canlynol yn nodedig:

- Ni fu unrhyw brinder cyffuriau yn ystod y cyfnod clo ac roedd yn fater o fusnes fel arfer. Bu prinder pan agorwyd y cyfnod clo yn ystod Mehefin/Gorffennaf 2020 ond roedd pethau wedi dychwelyd i normal ers hynny.
- Bu mwy o ddefnydd o gyffuriau ac alcohol.
- Roedd cyflenwyr cyffuriau wedi bod yn gyflym wrth gynorthwyo eu cwsmeriaid i amddiffyn eu hunain rhag y feirws h.y. cydymffurfio â rheoliadau Covid. Eu cymhelliant dros wneud hynny oedd sicrhau bod eu sylfaen cwsmeriaid yn aros yn ei le ac nid oherwydd Covid.
- Cannabis oedd y cyffur a adroddwyd amlaf a ddefnyddid ac roedd “cyffuriau parti” wedi lleihau oherwydd bod adeiladau wedi cau a dim partïon yn digwydd.
- Yn bryderus roedd y defnydd o gyffuriau yn cynyddu, ynghyd â symptomau diddyfnu, yn arwain at fwy o orddosau angheuol a rhannu offer gan arwain at ganlyniadau anfwriadol.

Roedd Heddlu Gogledd Cymru wedi dod o hyd i fwy o ddefnydd o dabledi fel bensodiasepinau, tramadol a Xanax, a brynwyd trwy'r we dywyll. Dangosodd samplau eu bod yn ffug a oedd yn cynyddu'r risg o orddos.

Bu gweithrediadau llwyddiannus gyda'r heddlu ar y ffin yn targedu swyddfeydd post, gan na allai gangiau troseddau cyfundrefnol ddefnyddio negeswyr llinellau sirol oherwydd cyfyngiadau clo.

Roedd gwasanaethau triniaeth yng Nghymru yn rhagnodi Buvidal, sef triniaeth drwyddedig ar gyfer dibyniaeth opioid, oherwydd roedd yn para'n hirach ac nid oedd angen casglu triniaeth arall o fferyllfeydd. Roedd y Bwrdd Cynllunio Ardal yn ariannu'r gwasanaeth.

### 3.4 Troseddau a Thwyll Seiber – Dafydd Llywelyn

Soniodd Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys, am natur newidiol trosedd a'r ymchwydd wrth ddefnyddio technoleg fel dewis arall yn ystod y cyfnod clo ac roedd Dyfed-Powys wedi sylwi ar gynnydd sylweddol mewn dioddefwyr ar-lein.

Nid oedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi nodi twyll fel rhan o'r ffigurau troseddau a gofnodwyd oherwydd y cynnydd esbonyddol yn ystod y 4-5 mlynedd flaenorol. Y dewis arall oedd mynd at y Swyddfa Cudd-wybodaeth Twyll ac nid oedd Dyfed Powys yn fodlon bod dioddefwyr yn cael y lefel briodol o wasanaeth. Mewn ymateb sefydlwyd dull brysbennu twyll yn yr heddlu ac fe gofnododd bron i ddwbl y dioddefwyr yn 2020/21 (1,946 o ddiodesfwr) o'i gymharu â 2019/20 (3,896 o ddiodesfwr). Roedd ei heddlu'n gweithio gyda'r protocol bancio trwy 'operation signature' i nodi twyll yn gynnar ac i ddiogelu trafodion ariannol.

Arweiniodd twyll rhamant yn 2019/20 at 20 o ddiodesfwr yn colli £70k o gymharu â 2020/21 hyd yma gyda 70 o ddiodesfwr yn colli £1.8 Miliwn. Cyfanswm y colledion yr adroddwyd amdanynt yn Dyfed-Powys oedd £14.5 miliwn yn 2020/21 ac roedd y dirwedd trosedd yn newid. Roedd angen sicrhau adnoddau digonol i'r maes hwn ac i

weithio gyda phartneriaid, y diwydiant bancio ac arbenigwyr yn Tarian, yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol.

### 3.5 Hil a Chynhwysiant ym maes Plismona Cymru – Carl Foulkes

Amlygodd Carl Foulkes, Prif Gwnstabl Gogledd Cymru, pam roedd creu gweithlu cynhwysol a chynrychioliadol yn bwysig.

Rhoddodd Operation Uplift, 20k o swyddogion ychwanegol yng Nghymru a Lloegr, gyfle i feddwl ac edrych ar y gweithlu yn wahanol. Roedd pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru wedi datblygu cynlluniau gweithredu cadarnhaol i annog cynrychiolaeth o wahanol gymunedau. Roedd swyddogion ymroddedig yn ymgysylltu â chymunedau a gyda swyddogion yn dod trwy'r gwasanaeth i gynnig cefnogaeth mentor i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Cefnogwyd newydd-ddyfodiaid i deimlo'n rhan o'r sefydliad a gyda'u dilyniant wedi hynny. Roedd rhai ardaloedd wedi gweld cynnydd yn y gyfradd gadael ar gyfer swyddogion â 2-4 blynedd o wasanaeth.

Nid oedd hyn yn ymwneud yn unig â'r heddlu ac roedd gwaith yn mynd rhagddo gyda Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill yng Nghymru i ddarparu un ymateb gwasanaeth cyhoeddus trwy'r byrddau cyfiawnder troseddol lleol a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru. Y nod oedd darparu'r lefel orau o wasanaeth bob amser, gan gefnogi cymunedau, bod yn gynrychioliadol ac edrych i rannu arfer gorau ar draws plismona, gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill.

Roedd Cymru yn arwain yn y maes hwn ar lefel genedlaethol. CC Pam Kelly yw arweinydd y Cyngor Penaethiaid Heddlu Cenedlaethol (NPCC) ar gyfer y gweithlu. CC Carl Foulkes yw arweinydd y NPCC ar gyfer cydraddoldeb, moeseg ac amrywiaeth. Dylanwadodd hynny ar blismona yng Nghymru a'r DU.

Fel rhan o'r gwaith ar hil a chynhwysiant, nodwyd mai'r gymuned ddu oedd y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol ac â'r lleiaf o gefnogaeth. Roedd angen mwy o ymgysylltiad â'r gymuned honno a chyflawni gweithlu â chynrychiolaeth well er mwyn mynd i'r afael ag anghyfiawnder y gorffennol a symud ymlaen.

### 3.6 Effaith y Pandemig ar Weithlu'r Heddlu – Jeff Cuthbert

Soniodd Jeff Cuthbert, Comisiynydd Heddlu a Throseddi Gwent, am ddisgwyliad y cyhoedd a sut roedd yn pwysu ar swyddogion heddlu. Roedd yr hen wireb o fethu â phlesio pawb yn berthnasol yn enwedig o ran yr ymateb i covid. Roedd rhai eisiau mwy o reoliadau ac eraill eisiau llai neu ddim rheoliadau o gwbl. Roedd yn hapus i adrodd bod yr holl arolygon yng Ngwent yn dangos bod plismona gan ddefnyddio dull 4E yn cael ei gefnogi'n gyffredinol.

Parhaodd troseddau arferol a bu'n rhaid i'r heddlu ddelio â covid yn ychwanegol at eu hystod eang bresennol o gyfrifoldebau.

Roedd risgiau i swyddogion o ran ymosod arnynt neu boeri arnynt ac ni allent weithio gartref wrth gwrs. Roedd angen iddynt fod allan yn y gymuned ac roedd nerfuswydd dealladwy o ystyried nad oeddent yn gwybod pwy y byddent yn dod ar eu traws.

Ymosodwyd ar 4,200 o weithwyr brys yng Nghymru yn ystod y 12 mis blaenorol. Ymosodwyd ar un o bob tri swyddog gan gynnwys cael eu poeri gan bobl a oedd yn honni bod ganddynt covid.

Effeithiwyd ar forâl, fodd bynnag, roedd lefelau adleoli staff yn parhau i fod yn isel ac roedd morâl yn dda. Roedd swyddogion yn deall y galw a lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar y cyhoedd. Nid oedd unrhyw gwestiwn o ran osgoi sifftiau.

Maes anodd i'r heddlu oedd delio ag esgusodion derbyniol am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau yn enwedig pan wnaethant newid. Felly, roedd materion yn codi i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar sut roeddent yn cyfleu'r cyfyngiadau i'r cyhoedd.

Roedd brechiadau yn achos anghytuno ac roedd y Comisiynwyr wedi bod yn lloio Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried mater risg a bygythiad fel y ffactorau penderfynu ar gyfer y rhai sy'n gymwys i dderbyn brechlyn. Nid oedd yr heddlu'n ceisio neidio'r ciw nac awgrymu na ddylai'r rhai sydd o oedran penodol neu'n sâl fod yn flaenoriaeth. O ystyried lefel y risg a'r bygythiadau y mae swyddogion yn eu hwynebu, dylid eu hystyried o leiaf ar gyfer brechlynnau dros ben a gwneud hynny ar sail y pedair gwlad.

Roedd ffocws ar lesiant ym mhob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru. Roedd hynny ar lesiant a chefnogaeth yn gyffredinol yn ogystal ag agweddau penodol fel gwydnwch trawma. Cafodd timau Comisiynwyr eu cynnwys yn y gefnogaeth hon hefyd o ystyried y materion iechyd meddwl ac mae'r unigedd a achosir gan y pandemig wedi cael effaith arnynt nhw a'u teuluoedd.

### 3.7 Rôl Feirniadol Partneriaethau Lleol – Claire Parmenter

Soniodd Claire Parmenter, Prif Gwnstabl Dros Dro Dyfed-Powys, am ba mor dda yr oedd gweithio mewn partneriaeth yn gweithredu yng Nghymru a sut roedd y pandemig wedi amlygu hynny

Roedd yn braf nodi nifer y bobl yng Nghymru a oedd eisoes wedi cael eu brechu. Dylid llongyfarch yr Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Iechyd, gyda chefnogaeth cyrff cyhoeddus eraill, ar lwyddiant y rhaglen. Roedd hi hefyd yn ddiolchgar am frechu rhai swyddogion a staff, sef swyddogion arfau tanio a staff y ddalfa. Roedd pryder parhaus rhwng PCCs a Phrif Gwnstablaid bod swyddogion a staff eraill mewn perygl galwedigaethol ac y dylid eu brechu.

O ran gorfodi, bu partneriaeth dda yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru gan gynnwys ymgynghori amserol a rheolaidd, a oedd yn ddefnyddiol. Roedd plismona wedi bod yn ymatebol ac ystwyth wrth ymateb i'r rheoliadau newydd.

Roedd y strwythur partneriaeth ehangach ledled Cymru wedi bod yn amhrisiadwy. Roedd partneriaid presennol fel Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod i'r amlwg yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd timau trwyddedu'r heddlu wedi gweithio'n agos gyda

thimau Awdurdod Lleol ynghylch gorfodi, cau a gwirio. Roedd hynny'n dyst i'r gwaith agos ar lefel leol.

Roedd y Byrddau Iechyd wedi gwneud gwaith gwyb. Roedd timau rheoli achos lluosog yr heddlu wedi gweithio'n dda, ac roedd dull amlasiantaeth o gyfraddau trosglwyddiad, ymgysylltu â'r gymuned a'r 4E hefyd yn amhrisiadwy.

Amlinellwyd effeithiolrwydd Op Talla – gwnaeth yr heddlu yng Nghymru arwain y grŵp cydgysylltu strategol.

Roedd cysylltedd lleol a Chymru gyfan trwy'r SCGs yn gyfle i rannu dull cyfannol cydgysylltiedig gan fwydo'r darlun cenedlaethol. Roedd adborth ar weithio mewn partneriaeth yng Nghymru wedi cael ei ddefnyddio fel esiampl o arfer da.

O ran tracio ac olrhain, roedd trefniadau cenedlaethol gyda chymorth tracio ac olrhain lleol yn sicrhau nodi ac ynysu cynnar gan ganiatáu i heddluoedd reoli risg a sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu gwasanaeth i gymunedau er gwaethaf adleoli staff.

Roedd y peilot profion llif unffordd yn Heddlu De Cymru yn ddefnyddiol iawn a byddai'n cael ei gyflwyno'n ehangach. Roedd profi torfol ar draws manau problemus o ran yr haint yr heddlu wedi lleihau trosglwyddiad.

Roedd yn bwysig dysgu a chymryd y gorau o'r 12 mis diwethaf i ddatblygu a gwella gweithio mewn partneriaeth ledled Cymru.

### 3.8 Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru: Astudiaeth achos mewn cydweithrediad – Alun Michael

Disgrifiodd Alun Michael, Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru, stori lwyddiant go iawn yng Nghymru o ran gweithio mewn partneriaeth rhwng plismona a gwasanaeth prawf a weithiodd yn dda gyda'i gilydd cyn y pandemig trwy atal troseddau a chynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y System Cyfiawnder Troseddol. Roedd hynny'n cynnwys cydnabod effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gweithio gyda menywod sy'n troseddau, mynd i'r afael â thrais a cham-drin domestig.

Roedd argyfwng mawr pan arweiniodd Covid-19, 12 mis yn ôl, at gau'r llysoedd. Roedd yn amlwg nad oedd yn bosibl sicrhau cyfiawnder pan gaewyd y llysoedd. Sefydlwyd grŵp adfer a chyfarfu'n wythnosol â phennaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), gwasanaeth Llys, Prawf, cynrychiolwyr Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (PCCs), Prif Gwnstabiliaid a phenaethiaid Prawf.

Cymerwyd camau ymarferol, sef:

- Agor llys "Nightingale" yn Abertawe
- Defnyddio gwirfoddolwyr i helpu gyda rheithgorau yng Nghaerdydd
- Estyn doc yng Nghasnewydd
- Ailagor llysoedd ynadon ledled Cymru

- Cyflwyno tystiolaeth o bell

Esblygodd y grŵp adfer i fod yn grŵp llywio ym mis Medi 2020 a daeth yn fwy cynrychioliadol fyth. Cyfarfu bob pythefnos a phenodwyd cydlynedd a ariennir ar y cyd. Roedd wedi cyhoeddi datganiad o bwrpas a oedd yn nodi sut y byddai cyflwyno'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn cael ei wella. Fe greodd logo newydd a oedd yn symbol o'r datblygiadau hynny.

Roedd honno'n stori lwyddiant a gafodd ei chydabod gan swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gan farnwyr a'r Arglwydd Ganghellor a ddywedodd ein bod yn well yng Nghymru am weithio gyda'n gilydd a chyflawni pethau. Gwnaed hynny gan gyrff heb eu datganoli sy'n gweithio mewn amgylchedd datganoledig gyda phartneriaid datganoledig ac yn ei wneud yn llwyddiant yn hytrach na phroblem.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyflwyniadau a oedd wedi'u recordio ac roedd llawer o wybodaeth y gellid ei defnyddio ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

### **3. Cwestiynau a thrafodaeth**

3.1 Darllenodd y Cadeirydd gwestiwn o far sgwrsio'r cyfarfod, fel y'i postiwyd gan Neil McEvoy AS fel a ganlyn:

*Pam bod gwirfoddolwyr "Propel" yn byw mewn ofn o gael eu haflonyddu a'u rhybuddio gan yr heddlu am ddsbarthu taflenni tra bod yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol (PCSOs) a swyddogion heddlu yn defnyddio rheoliadau i gynnal yr un gweithgaredd? Mae swyddogion heddlu yn Ne Cymru hyd yn oed yn curo ar ddrysau. Mae'r rheoliadau yn caniatáu gweithgarwch gwirfoddol fel dosbarthu taflenni, felly pam bod Heddlu De Cymru yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth.*

Ychwanegodd Mr McEvoy AS at ei gwestiwn ei fod yn cyfeirio at e-bost gan Heddlu De Cymru yr oedd wedi ei agor y diwrnod hwnnw a esboniodd eu bod yn defnyddio rheoliadau i gyflawni eu gweithgareddau sef, "Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 paragraff 1 atodlen 4", a oedd yn cyfeirio at esgus rhesymol pan nad oes dewisiadau amgen ymarferol eraill. Nid oeddent yn defnyddio cwmni preifat na'r system bost oherwydd nad oedd yn weithredol effeithiol nac yn rhesymol ymarferol; fel y cyfryw, roeddent yn cyflawni eu dyletswyddau.

Derbyniodd Mr McEvoy MS y dylai'r heddlu allu dosbarthu taflenni yn y ffordd a ddisgrifir fodd bynnag; ni dderbyniodd nad oedd yn gallu gwneud yr un peth yn ôl yr heddlu a geisiodd ei rybuddio. Roedd hefyd yn teimlo bod aelodau "Propel" yn ofni dosbarthu taflenni rhag ofn iddynt gael eu rhybuddio neu eu haflonyddu gan yr heddlu. Roedd wedi rhoi menig a chopiau o'r canllaw i'w wirfoddolwyr rhag ofn i swyddogion eu herio. Fodd bynnag, nid oedd ganddo broblem gyda'r mwyafrif o swyddogion rheng flaen; ond teimlai fod y Prif Gwnstabl yn wleidyddol. Roedd eisiau gwybod pam ei bod yn dderbyniol i swyddogion heddlu gyflawni dyletswyddau nad oedd hawl ganddo ef i wneud fel gwleidydd.

Gan fod hwn yn fater gweithredol, gwahoddodd y Cadeirydd Jeremy Vaughan i ymateb.

Roedd CC Jeremy Vaughan yn gwerthfawrogi'r cwestiwn ac yn cynghori fel a ganlyn.

Y ffordd orau o ddelio â chwynion penodol yw'r manylion. Mae gweithdrefnau a phrosesau ar waith ar gyfer hynny ac maent yn destun goruchwyliaeth drylwyr gan y Swyddfa Annibynnol ar gyfer Cwynion yr Heddlu (IOPC) a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd o ran eu rhwymedigaethau statudol.

Mae'n amser eithriadol ac roedd y gwasanaeth heddlu wedi gweithio'n galed iawn ledled Cymru i sicrhau cysondeb yn y ffordd yr oedd y rheoliadau sy'n newid yn aml (30 fersiwn hyd yma) yn cael eu plismona. Roedd hynny'n ymestyn i ddehongliad pobl o gyfyngiadau haen 4 a'r cyfyngiadau cysylltiedig ar ryddid i symud a sicrhau cysondeb yn her go iawn.

Disgrifiodd CC Pam Kelly hefyd y trefniadau a roddwyd ar waith gan yr heddlu i sicrhau cysondeb ledled Cymru. Roeddent wedi dyrannu uwch arweinydd i weithio gyda Swyddogion Monitro i ystyried beth fyddai cyfyngiadau covid yn ei olygu yn y cyfnod sy'n arwain at yr etholiadau. Byddent, trwy'r broses honno, yn gallu cael deialog gydag ymgeiswyr. Yn ystod y cyfnod yn arwain at yr etholiadau, roedd y gwasanaeth heddlu yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau dull cyson ar draws pob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru gyda'u dull. Byddai'n cael ei friffio ar y broses honno wrth iddi ddatblygu.

Nid oedd Mr McEvoy MS eisiau cael ei friffio na chyfeirio at achos unigol y soniodd amdano o'r blaen. Teimlai ei fod yn fater polisi cyffredinol ac na allai ddeall pam y gellid dosbarthu taflenni masnachol pan na allai taflenni gwleidyddol cyn etholiad. O ran y Swyddogion Monitro yng Nghaerdydd, dywedodd fod yr aelodau wedi cael gwybod y gallent fod yn ddarostyngedig i'r cod ymddygiad pe byddent yn dosbarthu taflenni. O ganlyniad, nid oedd yr Aelodau am dddosbarthu taflenni rhag ofn iddynt dorri'r cod ymddygiad.

Teimlai ei fod yn gwleidyddoli'r broses wleidyddol a'r ffordd yr oedd yn cael ei phlismona. Teimlai ymhellach fod diffyg cysondeb gan mai dim ond aelodau "Propel" y siaradwyd â nhw ac nid unrhyw wleidyddion eraill yng Nghymru.

Dywedodd y Cadeirydd, wrth symud at y cwestiwn nesaf, fod pob gwleidydd eisiau deall yr hyn a ganiateir a beth na chaniateir ac y byddent yn cael eglurder wrth symud ymlaen.

3.2 Yna gofynnodd y Cadeirydd a oedd cysondeb ledled Cymru o ran sut y defnyddiwyd brechlyn dros ben neu a oedd amrywiadau mewn gwahanol ardaloedd o ran swyddogion yn cael eu brechu?

Ymatebodd Alun Michael trwy nodi y dylid defnyddio brechlyn dros ben lle bynnag y bo modd fel y gallai'r swyddogion hynny sydd fwyaf mewn perygl ei gael. Roedd yna wall i ddechrau ond erbyn hyn roedd cysondeb ledled Cymru.

Teimlai holl Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabiliaid Cymru y dylid fod wedi cael asesiad yn seiliedig ar risg alwedigaethol. Roedd y pedair gwlad yn dilyn rheolau'r Cyd-bwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI), ond nid oeddent yn ystyried y dylid mynd ar drywydd risg alwedigaethol. Roedd hynny'n golygu nad oedd

swyddogion a oedd yn delio ag unigolion treisgar, yr oedd rhai ohonynt yn poeri yn yr heddlu, yn cael cynnig y brechlyn oherwydd nad oeddent yn cwrdd â'r meini prawf oedran.

Parhawyd i drafod y mater gyda Llywodraeth Cymru ac roedd y Prif Weinidog wedi gofyn i'r JCVI ei ystyried. Cysylltwyd hefyd â'r Ysgrifennydd Cartref a pharhawyd i drafod y mater.

3.3 Cyfeiriodd Alun Michael at ddau ddigwyddiad i ddathlu dwy agwedd ar blismona sef:

- Dathliad o waith yr Heddlu a Swyddogion Cymorth Cymunedol (PCSOs) y cyfrannodd Llywodraeth Cymru atynt ac
- Dathliad o waith swyddogion rheng flaen

Gwerthfawrogwyd pe gallai Aelodau o'r Senedd ail-drydar negeseuon ar y dathliadau.

Dywedodd CC Vaughan fod y penderfyniad ar frechiadau yn hynod siomedig yn enwedig gan fod rôl swyddog ymateb yn cael ei ddathlu h.y. roeddent yn dal i weithio er gwaethaf y risgiau o gael eu heintio. Byddem yn gwerthfawrogi pe bai modd cefnogi dathliad eu rôl ar y cyfryngau cymdeithasol.

Dywedodd y Cadeirydd fod gan y Grŵp gyfrif twitter ac y byddai ei dîm yn cysylltu ag Aelodau eraill o'r Senedd.

T/CC Claire Parmenter oedd arweinydd Cymru ar PCSOs ac roedd hi'n ddiolchgar am y gefnogaeth ariannol barhaus gan Lywodraeth Cymru. Roedd PCSOs wedi chwarae rhan sylweddol yn ystod Covid trwy gadw cymunedau'n ddiogel, casglu gwybodaeth ac ati ac roeddent wedi mynd y tu hwnt i'w dyletswyddau.

Dywedodd Jeff Cuthbert fod cydweithwyr yn Lloegr yn genfigennus o'r gefnogaeth ariannol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a heb hynny ni fyddai'n bosibl ei chynnal.

3.4 Soniodd CC Pam Kelly am yr angen am gefnogaeth wrth i'r cyfyngiadau cloi gael eu llacio. Roedd pryderon ynghylch cynnydd mewn troseddau ac roedd angen cysondeb iaith ar draws y sector cyhoeddus a gofyn i gymunedau baratoi ar gyfer y cyfnod ar ôl y cyfnod clo.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:20.